



## Llwydni mewn Ysgolion

Fwy a mwy, mae gwaith craidd yr NASUWT yn adlewyrchu'r pryderon sy'n codi am llwydni mewn ysgolion. Mae'r bwletin hwn yn cynnwys cyngor pwysig i aelodau am y mater hwn.

### Cyflwyniad

Ffwng sydd i'w weld yn glir yn tyfu yw llwydni. Ceir sawl math gwahanol o ffwng sy'n achos i llwydni ymddangos. Dim ond mewn ardaloedd ble ceir llawer o wlybaniaeth mae llwydni'n tyfu, ac felly bydd yn ffynnu mewn amodau gwlyb/llaith, yn enwedig ble mae hefyd yn gynnes. Felly mae adeiladau llaith ysgolion yn addas iawn i dwf ffwngaid.

Organebau fel planhigion yw llwydni ac nid oes arno angen golau i dyfu. Mae'n cael maethynnau drwy fyw ar sylwedd marw fel papur, cardfwrdd a phren.

### Ble ceir llwydni

Er mwyn i llwydni dyfu mae'n rhaid wrth ffynhonnell o wlybaniaeth. Mewn ystafelloedd dosbarth, mae'n debygol o ddiwydd drwy i ddŵr dreiddio i mewn (e.e. to neu ffenest yn gollwng), pibell yn gollwng neu awyru gwael. Mae ystafelloedd clos iawn, ac ystafelloedd ble ceir llawer o anwedd, fel ystafelloedd coginio, cyfleusterau newid (yn enwedig os oes cawodydd ynddynt) a thoiledau, yn debygol iawn o ddirodd o llwydni. Hefyd mae posib i llwydni gael ei achosi gan ddiffygion sy'n arwain at dampwedd codi.

### Arwyddion o llwydni

Mae llwydni'n ymddangos fel rheol fel tyfiant gwlanog llwyd-ddu ar waliau a nenfydau. Er hynny, mae'n bosib i llwydni fod wedi'i guddio y tu ôl i ddodrefn ac mewn tyllau mewn waliau/nenfydau. Y rheswm yn aml dros yr arogl myglyd, trymaidd sy'n gysylltiedig â thampwedd yw tyfiant o llwydni rywle yn yr ystafell, a dylid cynnal ymchwiliad er mwyn canfod tarddiad yr arogl.

### Y problemau a achosir gan llwydni

Mae llwydni'n ymledu drwy ryddhau sborau i'w amgylchedd. Ystyrir y rhain fel alergenau ac maent yn gallu creu adwaith ar ffurf alergedd, fel clefyd y gwair neu bwl o asthma mewn pobl fwy bregus.

Mae rhannu'r un ystafell â sborau o'r fath wedi'i gysylltu hefyd â datblygu symptomau cysylltiedig â'r llwybr anadlu uchaf, fel peswch a brest gaeth, mewn pobl sy'n iach fel arall. Ceir cyswllt posib hefyd rhwng plant sy'n datblygu asthma a rhannu'r un amgylchedd â llwydni.

Hefyd mae rhai sborau'n wenwynig ac yn gallu amharu ar y system imiwnedd, yn enwedig yn y llwybr anadlu, ac arwain at gynnydd mewn heintiau ar y frest.

Mae unigolion sydd â lefel isel o imiwnedd yn wynebu risg fawr o heintiau ar y frest a achosir gan llwydni, gan fod sawl math o llwydni'n bathogenau dynol manteisgar. Hefyd, mae rhai pobl wedi cwyno am effeithiau fel blinder, cur pen ac anawsterau canolbwytio ar eu hiechyd, oherwydd nodweddion niwro-wenwynig rhai mathau o llwydni o bosib.

*dros y ddalen*

Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod yr arogl a achosir gan llwydni'n gallu achosi llid hefyd ac mae arogleuon amhleserus yn gallu achosi ymatebion straen fel cur pen a theimlo'n sâl.

## Delio â llwydni

Mae bod yn yr un ystafell â sborau llwydni am gyfnod byr yn gallu arwain at adwaith ar ffurf alergedd mewn pobl fwy bregus. Felly, rhaid rhoi sylw brys i llwydni a rhoi sylw iddo fel problem ddifrifol.

- Pan ddarganfyddir llwydni, neu os oes amheuaeth bod llwydni ar safle, dylid ynysu'r lleoliad. Mewn achosion o dyfiant helaeth o llwydni, dylid cynnal asesiad risg ac efallai y bydd angen adleoli athrawon a disgyblion nes bod y tyfiant wedi cael sylw.
- Dylid rhoi gwybod am ychydig bach o llwydni hyd yn oed, heb oedi, oherwydd gall ddynodi tyfiant cudd mwy sylweddol a/neu broblem sy'n datblygu. Dylid cynnal ymchwiliadau i benderfynu ar raddfa ac achos y llwydni. Nid oes angen penderfynu ar y math o llwydni sy'n bresennol, oherwydd mae'r broses ar gyfer delio â'r llwydni yr un fath, dim ots beth yw ei fath.
- Ar ôl penderfynu ar raddfa ac achos y llwydni, dylai'r staff cynnal a chadw ei lanhau gan ddefnyddio deunyddiau glanhau priodol, ar ôl cynnal asesiad risg i ddechrau. Rhaid trin y safle i atal ail dyfiant hefyd. Rhaid penderfynu beth sy'n achosi'r tyfiant oherwydd mae'n siŵr o dyfu'n ôl oni bai fod hyn yn cael sylw. Ni ddylid defnyddio'r safle tra mae'r llwydni'n cael ei glirio. **Ni ddylid tarfu ar y llwydni na'i sgubo na'i glirio gyda sugnydd llwch. Bydd hyn yn rhyddhau rhagor o sborau i'r atmosffer.**

### Nid gwaith athro yw glanhau'r llwydni.

- Efallai bod yr achos yn syml, fel to neu bibell yn gollwng. Yn yr achosion hyn, dylid gallu cywiro'r sefyllfa'n ddiraffferth. Os achosir y llwydni gan ddiffyg awyru a/neu lefel uchel o glosrwydd, bydd cyfuniad o wyntyll echdynnu, dadleithyddion ac unedau awyru'n briodol.
- Mae llwydni'n debygol o dyfu ar ôl llifogydd; felly, dylid cael gwared ar bob eitem sy'n gallu amsugno dŵr, fel carpedi a chlustogwaith, a'u newid.
- Os yw'r llwydni'n achosi tamprwydd codi, dylid cynnal ymchwiliad er mwyn penderfynu ar achos y tamprwydd ac i ddatrys y broblem mewn ffordd addas.

Pan mae llwydni'n bresennol / os oes amheuaeth bod llwydni'n bresennol, dylai ein haelodau wneud y canlynol:

- rhoi gwybod am y sefyllfa, gan ddefnyddio cyfryngau hysbysu arferol eich ysgol;
- rhoi gwybod i Gynrychiolydd lechyd a Diogelwch yr NASUWT;
- os yw'r llwydni'n helaeth a/neu os oes arogl llwydni mawr, gofynnwch am adleoli i ystafell ddosbarth wahanol nes bod y broblem yn cael sylw. Os bydd eich ysgol yn gwrthod, cysylltwch â'r NASUWT ar unwaith;
- cadw cofnod o'r digwyddiad;
- os ydych chi yn/wedi bod yn gweithio mewn ardal ble mae llwydni'n tyfu, ewch i weld eich meddyg am archwiliad ac i gofnodi'r ffaith eich bod wedi bod mewn amgylchedd ble ceir llwydni;
- os na fydd eich ysgol yn delio â'r broblem, ac os oes arnoch angen rhagor o gyngor, cysylltwch â'r NASUWT.